Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Effeithiau llifogydd

## Effeithiau uniongyrchol

(y dyddiau cyntaf)

## Effeithiau hirdymor

(wythnosau/misoedd/blynyddoedd)



**Effeithiau ar bobl a'r gymuned leol**



**Effeithiau ar seilwaith**



**Effeithiau ar yr amgylchedd naturiol**

Eiddo sydd â gwerth personol wedi'i ddifrodi neu ei olchi i ffwrdd.

Perygl o foddi.

Gorfod gadael eiddo.

Perygl o anaf.

Eiddo a busnesau dan ddŵr.

Seilwaith wedi'i ddifrodi.

Ffyrdd ar gau.

Teimladau o alar, straen, dicter a thristwch.

System garthion wedi'i gorlwytho.

Perygl o gael sioc drydanol.

Eitemau bwyd a diod wedi'u halogi ar ôl iddynt ddod i gysylltiad â llifddwr neu gael eu gorchuddio ganddo.

Amharu ar y cyflenwad pŵer.

Dim trydan.

Amharu ar gysyllteddd y rhwydwaith ffôn a Wi-Fi.

Colli eitemau diwylliannol a henebion treftadaeth.

Ffyrdd, pontydd a llinellau trên wedi'u difrodi neu eu difetha.

Amharu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Digwyddiadau a gwyliau yn cael eu canslo.

Cyflenwad dŵr wedi'i halogi – dim dŵr yfed glân.

Busnesau yn cael eu gorfodi i gau.

Mynediad cyfyngedig at gyflenwadau, offer a gwasanaethau meddygol.

Ysgolion a meithrinfeydd ar gau.

Canolfannau gofal dydd i oedolion ar gau.

Cnydau wedi'u difetha ar ôl iddynt ddod i gysylltiad â llifddwr neu gael eu gorchuddio ganddo.

Da byw yn cael eu boddi neu eu golchi i ffwrdd.

Lle nad oes fawr ddim llystyfiant, neu ddim o gwbl, gall pridd gael ei erydu neu ei olchi i ffwrdd.

Caeau'n mynd yn ddwrlawn.

Glannau afonydd wedi'u golchi i ffwrdd.

Gall gwasgedd sydyn dŵr sy'n rhedeg i lawr llethr wthio pridd a malurion gydag ef, gan arwain at dirlithriad.

Ni all pysgod sydd wedi eu golchi allan o'r afon fynd yn ôl unwaith y bydd y dŵr yn mynd i lawr.

Mae llifddwr sy'n llifo'n gyflym yn dadwreiddio coed ac yn eu golchi i ffwrdd.

Cynefinoedd dan ddŵr, nythod a chartrefi wedi eu dinistrio – pryfed, mamaliaid ac adar yn cael eu dadleoli ac yn ei chael yn anodd.

Gwrteithiau amaethyddol, plaladdwyr a chemegion diwydiannol yn cael eu golchi i afonydd.

Anawsterau o ran hawlio yswiriant.

Mae llwydni a malltod yn tyfu ar waliau ac arwynebau.

Gall dod i gysylltiad â llifddwr halogedig achosi i afiechydon a chlefydau ymledu.

Dod o hyd i adnoddau i atgyweirio neu ailadeiladu eiddo a ddifrodwyd.

Difrod adeileddol i eiddo.

Pridd yn dirywio ac yn mynd yn ddiffaith oherwydd disbyddiad ocsigen ym mhroffil y pridd, gan arwain at lai o amrywiaeth fiolegol yn y pridd.

Nid yw'n bosibl symud nôl i mewn i eiddo am amser hir.

Atal ac amharu ar ddosbarthiadau ysgol ac arholiadau.

Llai o gyfleoedd i gwrdd â phobl newydd a chymdeithasu, gan arwain at unigrwydd.

Mae prinder bwyd oherwydd tarfu ar gadwyni cyflenwi a dosbarthu.

Mae cynnydd mewn gwaddodi yn arwain at silt a gwaddodion yn cronni mewn afonydd, gan leihau'r lefelau ocsigen sydd ar gael a chreu cynefin sy'n anaddas i bysgod fel eogiaid silio.

Morâl y gymuned yn isel.

Effeithir ar niferoedd twristiaid.

Nid yw unigolion yn gallu gweithio oherwydd straen neu iselder hirdymor.

Colli incwm.

Llai o fioamrywiaeth o ganlyniad i ddinistrio cadwyni a gweoedd bwyd a chynefinoedd.

Mae planhigion yn gwanhau ac mae cynefinoedd yn ei chael yn anodd adfer, ac mae hyn yn rhoi cyfle i chwyn a rhywogaethau goresgynnol ffynnu.

Cynnydd mewn costau yswiriant.

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer. Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**

**www.cyfoethnaturiol.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**